# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.45 y.h., DYDD MERCHER, 23AIN TACHWEDD, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2022)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

Rheinallt Puw

Arwyn Herald Roberts

Elfed Williams (eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Menna Baines

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 6

Elevenses Distillery Ltd, Neuadd y Faenol, Parc y Faenol, Bangor,
Gwynedd LL57 4BP

I ystyried y cais uchod

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **23 TACHWEDD 2022** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ELEVENSES DISTILLERY** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Elevenses Distillery Ltd, Neuadd y Faenol, Parc y Faenol, Bangor, Gwynedd LL57 4BP. Mae'r ymgeisydd Jake Davies, yn gwneud cais am drwydded eiddo ar gyfer distyllfa fach deuluol. Bydd y jin yn cael ei wneud â llaw, a'i gynhyrchu yn raddol (220 potel ar y tro). Bydd y distyllyr a ddefnyddir yn y ddistyllfa yn un o faint 250L. Bydd y ddistyllfa yn mesur 35-troedfedd x 19.5 troedfedd o led. Mae'r eiddo yn un o hen adeiladau allanol stad y Faenol. Mae'r cwmni yn gobeithio cyflenwi'r gin lleol i siopau, bwytai a thafarndai lleol.

1.2 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth fyw a gwerthiant alcohol ar ac oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

**Oriau Agor:**
**Dydd Sul 08:00 - 23:00**
**Dydd Llun 08:00 - 23:00**
**Dydd Mawrth 08:00 - 23:00**
**Dydd Mercher 08:00 - 23:00**
**Dydd Iau 08:00 - 23:00**
**Dydd Gwener 08:00 - 23:00**
**Dydd Sadwrn 08:00 - 23:00**

**Gweithgareddau Trwyddedadwy:**

**Cerddoriaeth Fyw: Dan do: Indoors**
**Dydd Sul 08:00 - 23:00**
**Dydd Llun 08:00 - 23:00**
**Dydd Mawrth 08:00 - 23:00**
**Dydd Mercher 08:00 - 23:00**
**Dydd Iau 08:00 - 23:00**
**Dydd Gwener 08:00 - 23:00**
**Dydd Sadwrn 08:00 - 23:00**

**Cyflenwi Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo:**
**Dydd Sul 08:00 - 23:00**
**Dydd Llun 08:00 - 23:00**
**Dydd Mawrth 08:00 - 23:00**
**Dydd Mercher 08:00 - 23:00**
**Dydd Iau 08:00 - 23:00**
**Dydd Gwener 08:00 - 23:00**
**Dydd Sadwrn 08:00 - 23:00**

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r amcanion a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys -

- Gosodir system TCC.
- Gweithdrefnau diogelwch tân priodol yn eu lle.

- Gofynnir i'r cwsmeriaid adael yn dawel.
- Monitro lefelau sŵn.
- Darparu digon o finiau.
- Her 25

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran M o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Amodau a Gynigir |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Arsylwadau |

### 3.1 Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn argymell cynnwys yr amodau isod ar y drwydded eiddo:

**Atal Trosedd ac Anrhefn ac Amddiffyn Plant rhag Niwed:**

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi argymell amodau TCC llawn i'w cynnwys yn yr atodlen weithredu. Gweler y manylion llawn yn yr atodiad. Mae'r Heddlu hefyd wedi gofyn i'r holl staff ymgymryd â hyfforddiant staff mewn perthynas â holl agweddau'r Ddeddf Trwyddedu – i gynnwys gwiriadau oedran, gwerthu o dan oed, Polisi Her 25 a defnyddio logiau digwyddiadau a gwrthodiadau. Gwelir y manylion llawn yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

### 3.2 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

Mae Gwarchod y Cyhoedd wedi gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ar rai agweddau mewn perthynas â'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Mae'r cais yn cynnwys dau adeilad ar wahân, un i gynnwys y ddistyllfa a'r ail i gynnal digwyddiadau. Mae'r swyddog wedi gofyn i'r ymgeisydd gadarnhau pa mor aml y bwriedir defnyddio'r ardal ddigwyddiadau; a chadarnhau beth yw statws cynllunio'r ardal hon.

Nodir bod nifer fechan o eiddo preswyl yn agos at yr eiddo arfaethedig. Mae gan strwythur yr adeilad agoriadau, ac nid yw wedi'i insiwleiddio'n ddigonol o ran sŵn. O ganlyniad i Ddeddf Cerddoriaeth Byw 2012, cafodd cerddoriaeth fyw ei dadreoleiddio, a nid oes angen trwydded ar gyfer perfformio cerddoriaeth fyw rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar eiddo sydd wedi'i awdurdodi i werthu alcohol i'w yfed ar yr eiddo hwnnw, cyn belled nad oes mwy na 500 yn y gynulleidfa. Fodd bynnag, os oes mwy na'r nifer hwn o bobl, mae angen cynllun cadarn er mwyn atal niwsans cyhoeddus.
Mae'r swyddog wedi gofyn am gadarnhad am reolaeth sŵn ar gyfer digwyddiadau gyda'r nos; gan gynnwys gwybodaeth ar fonitro lefelau sŵn
Yn ogystal, mae'r swyddog wedi gofyn am wybodaeth mewn perthynas â darparu toiledau a golau y tu allan.
Mewn ymateb i sylwadau Iechyd yr Amgylchedd, derbyniwyd ymateb gan yr ymgeisydd ar 8fed o Dachwedd gyda chadarnhad fod digwyddiadau yn cael eu cyfyngu i 5 digwyddiad y flwyddyn yn yr adeilad 'digwyddiadau' sydd drws nesaf i'r ddistyllfa.

**4 ARGYMHELLIAD**
Argymhellir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol â sylwadau Iechyd yr Amgylchedd a'r Heddlu a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.